

Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Arweiniad i Gynhwysiant & Chefnogaeth Ddigidol

## Cip cyflym:

**Mae eithrio digidol yn gallu gwneud yr argyfwng costau byw yn sylweddol waeth, gan effeithio ar sawl agwedd ar fywydau dyddiol unigolion a'u gallu i reoli eu sefyllfa ariannol, cael gafael ar wasanaethau hanfodol, a sicrhau cyfleoedd gwaith ac addysg.**

## EFFEITHIAU:

Mae cefnogi cynhwysiant digidol yn hollbwysig i gymunedau. Mae'r bwlch digidol yn effeithio llawer o grwpiau gwahanol fel yr henoed, teuluoedd ar incwm isel, a phobl mewn ardaloedd gwledig.

Mae cymunedau gwledig ac anghysbell yng Nghymru yn dioddef bylchau seilwaith sylweddol. Mae cysylltedd band eang a fffonau symudol gwael neu annibynadwy yn ei gwneud yn anodd i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.

Mae llawer o wasanaethau ariannol, gan gynnwys bancio, yn symud fwyfwy ar-lein. Gallai pobl heb gysylltiad digidol gael eu gorfodi i ddibynnu ar ganghennau banc ar y stryd fawr, sy'n mynd yn fwy a mwy prin.

Mae darparwyr ynni yn symud at gyfathrebu digidol yn unig, gan gynnwys bilio a gwasanaethu cwsmeriaid. Gallai pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol fethu manteisio ar gyfrifon a mentrau ar-lein allai helpu lleihau eu costau ynni cyffredinol.

## Heriau:

Mae llawer o wasanaethau hanfodol yn symud ar-lein, megis budd-daliadau llywodraeth, gwasanaethau gofal iechyd, ceisiadau am swyddi, ac os nad oes ganddynt offerynnau digidol neu'r gallu i'w defnyddio, gall rhai grwpiau gael eu hymylu fwy fyth. Nid yw pobl heb gysylltiad rhyngrwyd neu beiriannau digidol yn gallu defnyddio gwefannau cymharu neu siopa ar-lein, sy'n golygu y gallent fethu manteisio ar ddewisiadau rhatach, gan arwain at gostau byw uwch.

## Cyfleoedd & Atebion Allweddol

1. **Darparwch bwyntiau cyswllt cyhoeddus**: Gwnewch yn siwr fod llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a mannau cyhoeddus eraill yn cynnig Wi-Fi am ddim a pheiriannau ar gyfer pobl sydd heb gysylltiad â'r we gartref.
2. **Cynigiwch weithdai llythrennedd digidol:** Darparwch hyfforddiant am ddim neu am bris isel i bobl o bob oed i wella eu sgiliau digidol. Gall hyn gynnwys sgiliau cyfrifiadur sylfaenol, diogelwch ar-lein, a defnyddio gwasanaethau llywodraeth ar-lein.
3. **Gweithiwch gyda'ch mudiadau trydydd sector lleol:** Mae llawer o grwpiau cymunedol eisoes yn gweithio i wella sgiliau digidol—cefnogwch nhw trwy gynnig arian neu adnoddau.
4. **Gall cynghorau weithio gyda busnesau lleol, ysgolion, a phobl leol** i gasglu peiriannau sy'n hen ond yn dal i weithio, adnewyddwch nhw, a rhowch nhw i bobl mewn angen. Gall hon fod yn ffordd gost-effeithiol o ddarparu offerynnau digidol i bobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.
5. **Cydweithiwch gyda sefydliadau cenedlaethol:** Gweithiwch gyda rhaglenni cynhwysiant digidol fel Cymunedau Digidol Cymru, sy'n cefnogi llythrennedd a chysylltiadau digidol ledled Cymru.

Mae **Pecyn Digidol Cwmpas** yn darparu adnoddau i wneud newidiadau digidol yn eich cyngor

Cau'r Bwlch Digidol gyda **The Good Things Foundation**

**Cymunedau Digidol Cymru** – creu Cymru fwy digidol gynhwysol

## Pam ddylech chi ei wneud?

Wrth i dechnoleg ddod yn fwy a mwy pwysig yn ein bywydau bob dydd, mae sicrhau bod holl aelodau'r gymuned yn gallu cael mynediad at adnoddau digidol ac yn gallu eu defnyddio yn hollbwysig i'w llesiant, eu cyfranogiad economaidd, ac ansawdd cyffredinol eu bywydau.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

Erbyn hyn mae mwy o aelwydydd yng Nghymru yn gallu cysylltu â'r we ond mae rhai pobl yn cael eu gadael ar ôl. **Archwilio Cymru**

**Prisiau cymdeithasol: Pecynnau ffôn a band eang rhatach**
Prisiau cymdeithasol yw pecynnau ffôn a band eang rhatach ar gyfer pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn a rhai budd-daliadau eraill

Yn debyg i fanc bwyd ond ar gyfer data ffonau symudol, mae'r **Banc Data Cenedlaethol** yn darparu cardiau SIM ffonau symudol am ddim i bobl sy'n methu fforddio cysylltu â'r rhyngrwyd.

**Tuag at Isafswm Safon Byw'n Ddigidol i Gymru:**
Crynodeb o'r canfyddiadau, deilliannau ac argymhellion ar gyfer yr isafswm safon byw'n ddigidol i Gymru.

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn rhybuddio fod defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol yn golygu fod pobl hŷn yn fwy tebygol o ddioddef eithrio cymdeithasol

## Grymoedd

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn gallu darparu cefnogaeth a chynhwysiant digidol, gan ei gwneud yn haws i bobl chwarae rhan mewn llywodraethiant lleol.

Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo cyfarfodydd hybrid, cynhwysiant digidol, a thryloywder ar-lein, gan helpu cynghorau i sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl wrth geisio cymryd rhan mewn prosesau democrataidd.

**Gall grymoedd a chyfiawnhadau wahaniaethu, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw. Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru. gweinydd@unllaiscumru.cymru**

**Gwyliwch Weminar Pontio'r Bwlch Digidol**

# Gwasanaethau & Phrosiectau Presennol:

Mae **Cyngor Cymuned Rhosili** wedi partneru gyda'u hwb cymunedol lleol ac wedi darparu Prosiect Pontio'r Bwlch Digidol oedd yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i bobl leol ar nifer o bynciau digidol er mwyn helpu gwella eu sgiliau a'u hyder.

Mae **Cyngor Tref Llwchwr** yn cynnal Caffi Digidol lle y gall pobl gysylltu â'r we a chael cefnogaeth i fynd ar-lein.

Mae **Cyngor Cymuned Bedlinog & Threlewis** wedi partneru gyda The Good Things Foundation i ddarparu simiau data rhad ac am ddim i drigolion..

Mae **Un Llais Cymru** wedi datblygu casgliad cynhwysfawr o ganllawiau i gynorthwyo Cynghorau gyda gwaith digidol a gwasanaethau ar-lein. Mae'r gefnogaeth ar gael yma: **Storfa Cyngor Digidol**

# Gwybodaeth am Gyllid & Chyfleoedd Posib

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Cronfa Ail-gylchu Nwyddau Trydanol

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Gwneud ceisiadau effeithiol am grantiau'**

**Mae Un Llais Cymru yn cynnig modiwl hyfforddiant ar 'Defnyddio TG, Gwefannau & Chyfryngau Cymdeithasol'**

# Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK

Un Llais Cymru